## 5. NEWIDIADAU ERS DATGANIAD 2016/17

5.1 Mae pob un o'r risgiau llywodraethu wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Gwneir hyn gan yr adran gyfrifol fel cam cyntaf, gyda'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ymgymryd â rôl sicrhau ansawdd.

5.2 Mae sgôr tri o'r risgiau wedi newid yn ystod y flwyddyn:

| **Risg** | **Sgôr flaenorol** | **Sgôr Effaith** | **Sgôr Tebygol-rwydd** | **Sgôr gyfredol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Fod diwylliant amhriodol o fewn y Cyngor yn llesteirio ein gallu i wneud y pethau iawn ac i'w gwneud yn y ffordd iawn | *16 (Uchel)* | Aros yn 4 | Lleihau o 4 i 3 | **12 (Uchel)** | Mae trefniadau wedi datblygu'n sylweddol yn ystod 2017/18, gyda'r cwrs *Rhoi Ffordd Gwynedd ar Waith* bellach wedi ei sefydlu fel rhan greiddiol o ddatblygiad pob rheolwr. Mae tystiolaeth fod y diwylliant yn dechrau treiddio trwy'r holl Gyngor, gyda'r tebygolrwydd o weld diwylliant amhriodol wedi lleihau. Er fod siawns o hyd y gwelwn hyn yn digwydd, asesir nad yw'n debygol iawn ar hyn o bryd. |
| Asedau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial | *6 (Canolig)* | Cynyddu o 2 i 3 | Aros yn 3 | **9 (Canolig)** | Ar ôl ystyriaeth bellach, daethpwyd i'r casgliad fod y sgôr effaith o 2 yn rhy isel. Yn unol â'r diffiniadau a nodir uchod, gall methiant i wneud y defnydd priodol o TG gael effaith sylweddol iawn, yn hytrach nag un arwyddocaol. Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu a'r Adran Gyllid wedi cytuno ar y sgôr newydd. |
| Gwendidau yn ein trefniadau rheoli perfformiad sy'n golygu nad ydym yn gallu cymryd camau priodol i wireddu ein pwrpas | *6 (Canolig)* | Aros yn 2 | Lleihau o 3 i 2 | **4 (Isel)** | Mae tystiolaeth fod y drefn monitro perfformiad wedi gwreiddio ar draws pob rhan o'r Cyngor erbyn hyn, ac yn gweithio'n effeithiol. Mae'n annhebygol ar hyn o bryd y gwelwn wendidau yn y trefniadau lle na byddai modd cymryd camau priodol, sydyn. |

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:

- Ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft sy'n ymddangos yn yr atodiad.
- Herio'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg am sgoriau risg sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.
- Ystyried cynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.
- Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.